TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# BTEC Tystysgrif mewn Peirianneg Awyrofod Lefel 3



**Yn gryno**

Yn ystod y cwrs hwn byddwch yn datblygu'r wybodaeth sylfaenol a'r sgiliau penodol y mae eu hangen i fodloni gofynion diwydiannau peirianneg awyrenegol/mecanyddol modern.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych eisiau gyrfa mewn peirianneg awyrenegol

... Ydych yn weithgar

... Oes gennych ddiddordeb ysol mewn peirianneg

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Pa un a ydych yn dymuno hebrwng cyfnod newydd i mewn o safbwynt awyrennau heb griw, datblygu awyrennau jet teithwyr mwyaf effeithlon y byd, neu droi teithiau i'r gofod yn realiti, mae'r dewisiadau gyrfa yn sector awyrofodol cyfnewidiol y DU yn ddigyffelyb.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mae'r cwrs hwn wedi'i ddatblygu ar y cyd â Phrifysgol De Cymru a byddwch yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai ymarferol yn y Ganolfan Awyrofodol yn Nhrefforest.

Yn ystod Blwyddyn 1, byddwch yn astudio:

Diploma Atodol mewn Peirianneg (60 credyd)

Iechyd a diogelwch yn y gweithle peirianneg (10 credyd)
Egwyddorion mecanyddol a'u defnydd (10 credyd)
Mathemateg ar gyfer technegwyr peirianneg (10 credyd)
Y defnydd o systemau mecanyddol mewn peirianneg (10 credyd)
Theori hedfan (10 credyd)
Arferion cynnal a chadw awyrennau (10 credyd)

Ynghyd â 30 credyd ychwanegol:

Deunyddiau a chaledwedd awyrennau (15 credyd)
Egwyddorion ac ymarfer gweithdai awyrennau (15 credyd)

Yn ystod Blwyddyn 2, byddwch yn astudio:

Diploma Estynedig mewn Peirianneg Awyrenegol (180 credyd)

Prosiect peirianneg (20 credyd)
Egwyddorion gwyddoniaeth fecanyddol awyrennau a'u defnydd (10 credyd)
Systemau trydanol awyrennau (10 credyd)
Systemau afionig (10 credyd)
Systemau gyrru awyrennau (10 credyd)
Cyfathrebu ar gyfer technegwyr peirianneg (10 credyd)
Egwyddorion gwyddoniaeth ffisegol awyrennau a'u defnydd (10 credyd)
Cyfrifiaduron a systemau electronig awyrennau (10 credyd)

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng arholiadau, gwaith cwrs, portffolio ac asesiad ymarferol. Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn ennill:

Diploma Atodol Lefel 3 mewn Peirianneg (Blwyddyn 1)
Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Peirianneg Awyrenegol (Blwyddyn 2)

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg (byddwch yn mynychu dosbarthiadau os na chawsoch Radd C neu

uwch yn y pynciau hyn)
Cymwysterau perthnasol eraill i wella eich set sgiliau

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru ar y cwrs hwn, byddwch angen fan leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Mathemateg Gradd B ac os oes modd Gwyddoniaeth Gradd B.

Bydd gennych ddiddordeb ysol mewn peirianneg, yn ogystal â brwdfrydedd a chymhelliant i ddatblygu eich sgiliau ymarferol a dadansoddol. Mae'n ofynnol ymrwymo'n llwyr i fynychu'r cwrs, ac mae parchu eraill, brwdfrydedd ynglyn â'r pwnc a hunangymhelliant hefyd yn ofynnol. Disgwylir ichi barhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Astudio Cynnal a Chadw Awyrenegol neu Beirianneg yn y brifysgol
Prentisiaeth Uwch
Gwaith

Beth am ddysgu mwy am yr hyn y gallwch ei wneud nesaf yn y maes peirianneg cyffrous hwn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd angen ichi brynu Cyfarpar Diogelu Personol a fydd yn costio oddeutu £40.00.